# Gweithdrefn Apelio Moeseg Ymchwil y Brifysgol

## Cyflwyniad

Mae Prifysgol Wrecsam wedi ymrwymo i gynnal y safonau gorau posibl o foeseg, manwl gywirdeb, a gonestrwydd yn ei holl ymchwil, ac yn ceisio diogelu urddas, hawliau a llesiant y rheiny sydd ynghlwm â'r ymchwil a gynhyrchir. Er mwyn cyflawni'r ymrwymiad hwn, mae'r Brifysgol yn gofyn bod yr holl ymchwil a wneir dan ei nawdd, sy'n cynnwys cyfranogwyr dynol, deunydd dynol, data personol, anifeiliaid, neu ymchwil, a all gael effaith andwyol ar yr amgylchedd, yn derbyn cymeradwyaeth moeseg ymchwil cyn dechrau'r ymchwil. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Brifysgol wedi llunio gweithdrefn i ganiatáu apeliadau yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Moeseg Ymchwil lefel Cyfadran neu Brifysgol.

Mae'r weithdrefn hon yn berthnasol i holl staff a myfyrwyr y Brifysgol sydd ynghlwm â phrosiect ymchwil y mae Polisi'r Brifysgol ar Foeseg Ymchwil a'r weithdrefn ar gyfer ymgeisio am gymeradwyaeth moeseg yn berthnasol.

## Rhesymau dros apelio

Gall ymchwilydd wneud apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran, neu Brifysgol, sy'n ymwneud â'u cais yn seiliedig ar unrhyw rai o'r amodau canlynol:

- Os gwrthodir cais
- mae'r amodau gofynnol yn annerbyniol i'r ymgeisydd am resymau ymchwil dilys

## Sut i gyflwyno apêl

Rhaid gwneud apêl yn erbyn penderfyniad Pwyllgor Moeseg Ymchwil Cyfadran neu Brifysgol yn ysgrifenedig drwy'r Swyddfa Ymchwil (rescadmin@glyndwr.ac.uk) cyn pen 20 diwrnod o dderbyn penderfyniad y Pwyllgor Moeseg Ymchwil.

Dylai'r llythyr apelio gynnwys y canlynol.

- Rhif cyfeirnod yr ymgeisydd
- Enw, teitl y prosiect ymchwil, a'r holl ymchwilwyr/goruchwylwyr a enwir ar y cais
- Manylion y penderfyniad y derbynioch chi gan y pwyllgor adolygu a sut y gwnaethoch fynd i'r afael â'r pwyntiau a godwyd
- Cyfiawnhad dros wneud cais i apelio
- Copi o'r ffurflen gais a dogfennaeth ategol (gydag unrhyw addasiadau pellach wedi'u gwneud)
- Llythyr cymeradwyo gan Ddeon neu Ddeon Cyswllt sy'n cefnogi'ch apêl

Cydnabyddir derbyn apêl cyn pen 5 diwrnod gwaith.

## Proses Adolygu

Bydd yr apêl yn cael ei hanfon at Gadeirydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol. Wrth adolygu'r ddogfennaeth a gyflwynwyd, gall y Cadeirydd ofyn am ddogfennaeth bellach gan yr ymchwilydd i gefnogi'r broses apelio; bydd gan yr ymchwilydd 30 diwrnod i ddarparu gwybodaeth bellach.

O ran apeliadau sydd angen barn gyfreithiol, bydd Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol yn adolygu unrhyw gyngor cyfreithiol a dderbyniwyd.

Bydd Cadeirydd y pwyllgor yn galw ar arbenigedd aelodau'r pwyllgor moeseg ymchwil, ac efallai'n gofyn am wybodaeth neu arbenigedd o du allan i aelodaeth bresennol y pwyllgor moeseg ymchwil, yn fewnol ac yn allanol os yw'n ofynnol.

Bydd y Cadeirydd yn pennu a ellir ymdrin â'r broses apelio drwy gyfathrebiadau electronig, neu a ddylid cynnal panel ffurfiol lle mae'n bosibl y gofynnir i'r apeliwr fod yn bresennol.

## Canlyniad

Bydd y canlyniad yn cael ei anfon at yr ymchwilydd yn nodi a yw'r apêl wedi bod yn llwyddiannus neu beidio, a chynnig manylion ynghylch y penderfyniad.

Gall y panel argymell, neu gytuno â'r newidiadau gofynnol y nodwyd yn llythyr yr apêl.

Os yw'r apêl yn aflwyddiannus, ni chaniateir unrhyw seiliau ar gyfer apeliadau pellach yn ymwneud â'r cais.

Anfonir y canlyniad i'r apeliwr cyn pen 20 diwrnod o dderbyn y wybodaeth y gofynnwyd amdani i gefnogi'r broses apelio.

## Manylion Cyswllt

Dylid cyfeirio'r holl ymholiadau sy'n ymwneud â'r weithdrefn hon at y Swydd Ymchwil - rescadmin@glyndwr.ac.uk